Ymchwil ar ddysgu yn yr awyr agored

Yn 2020, ariannodd Llywodraeth Cymru broject ymchwil cydweithredol i ymchwilio i'r effaith a gafodd pandemig Covid-19, y cyfnodau clo a chau ysgolion ar iechyd a lles plant, pobl ifanc a staff ysgolion, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddysgu yn yr awyr agored. Bydd llawer o bobl sy'n gweithio mewn ysgolion yn cofio, yn y canllawiau dychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnod clo cyntaf, bod sôn penodol am sut y gellid defnyddio mannau awyr agored a dysgu yn yr awyr agored i gefnogi iechyd a lles plant a phobl ifanc, ac i liniaru'r risg o drosglwyddo Covid-19 trwy dreulio amser yn yr awyr agored.

Bu tîm o ymchwilwyr o Brifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Phrifysgol De Cymru yn gweithio gyda sampl o ysgolion o wahanol sectorau a rhanbarthau i ddarganfod sut roedd ysgolion wedi addasu eu haddysgu yn sgil y cyngor hwn, a'r effaith ganfyddedig ar ddysgu yn yr awyr agored ar iechyd a lles (corfforol a meddyliol) staff ysgol a'r plant a'r bobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda hwy. Cyfwelwyd amrywiaeth o staff ysgol, gan gynnwys penaethiaid, athrawon dosbarth, caplaniaid ysgol, arweinwyr iechyd a lles a chymhorthyddion dysgu Bu'r tîm hefyd yn cyfweld â staff o wasanaethau dysgu awyr agored yr awdurdod lleol a/neu ganolfannau preswyl, ynghyd â sefydliadau cenedlaethol sy'n cefnogi ac yn cyflwyno dysgu yn yr awyr agored.

Gellir darllen crynodeb o'r adroddiad a'r canfyddiadau ar Hwb drwy'r cyswllt isod, ond i grynhoi, canfu'r tîm fod staff yr ysgolion yn adrodd bod dysgu yn yr awyr agored wedi arwain at effeithiau hynod gadarnhaol ar iechyd a lles pawb.  Nododd yr adroddiad fod bylchau sylweddol yn y ddarpariaeth ac er bod staff ysgolion yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan awdurdodau lleol a sefydliadau cenedlaethol i ddarparu hyfforddiant, adnoddau ac arbenigedd mewn rhai meysydd, roedd llawer o feysydd hefyd lle nad oedd y cymorth hwn ar gael yn hawdd. Gwnaeth yr adroddiad argymhellion bod angen gwneud rhagor o waith i ddeall ystod y ddarpariaeth yn well ac fel y gellir cyfeirio adnoddau'n effeithlon i gefnogi darpariaeth a rhannu arfer effeithiol fel y gall holl blant a phobl ifanc Cymru elwa ar yr effaith gadarnhaol o fod yn yr awyr agored.

https://hwb.gov.wales/professional-development/the-national-strategy-for-educational-research-and-enquiry-nsere/research-studies-on-the-impact-of-the-covid-19-pandemic-on-the-welsh-education-system/research-study-6/

Yn fwy diweddar, yn yr hydref yn 2021, cytunodd Llywodraeth Cymru i ariannu project arall sy'n ymchwilio i'r amrywiaeth o ddarpariaeth dysgu awyr agored ledled Cymru, a sut mae ysgolion yn defnyddio'r awyr agored mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan yr un tîm o ymchwilwyr a bydd yn cynnwys cynnal arolwg o athrawon dros gyfnod o 8 wythnos yn nhymor y gwanwyn 2022 er mwyn cael gwybod beth yw ystyr y term 'dysgu yn yr awyr agored' iddynt hwy a beth maent yn ei wneud gyda'u dosbarthiadau bob wythnos yn ystod y cyfnod hwnnw.

Cynhelir yr arolwg ar-lein a bydd yn cynnwys athrawon dosbarth yn llenwi tua 6 adran er mwyn casglu data ar beth, pam, pryd, ble a pha mor aml mae'r dosbarth/athro hwnnw/athrawes honno wedi defnyddio'r awyr agored i gefnogi sesiynau dysgu neu fel prif leoliad sesiynau dysgu. Bydd y project yn rhedeg tan fis Mawrth pan fydd y tîm yn cyflwyno

ei ganfyddiadau i Lywodraeth Cymru i'w cyhoeddi. Mae'n dilyn y patrwm a sefydlwyd gan waith arolwg tebyg a gomisiynwyd gan Lywodraeth yr Alban yn 2015, a nod yr adroddiad yw rhoi darlun cliriach o ba fathau o ddysgu awyr agored a ddefnyddir mewn ysgolion yng Nghymru, a pha mor aml y defnyddir dysgu yn yr awyr agored. Dylai hyn wedyn helpu i hysbysu llunwyr polisi ac awdurdodau lleol yn well fel y gallant sicrhau tegwch o ran adnoddau a chyfleoedd i blant a phobl ifanc Cymru.

Os hoffech ragor o wybodaeth am yr ymchwil hwn neu os hoffech gymryd rhan, cysylltwch â Graham French ym Mhrifysgol Bangor g.k.french@bangor.ac.uk